# ADRODDIAD I'R CABINET

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 13 Mawrth 2018 |
| **Aelod Cabinet:** | Cyng. W Gareth Roberts & Cyng. Dilwyn Morgan |
| **Awdur:** | Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | Est 32468 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adolygiad Seneddol Iechyd a Gofal yng Nghymru |

## 1. Cefndir

1.1 Mae'r Adroddiad hwn yn darparu trosolwg o'r Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru a'r ffordd y mae'n gysylltiedig â Gwaith Iechyd a Gofal yng Ngwynedd.

1.2 Cyhoeddwyd adroddiad terfynol yr Adolygiad o Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar Ionawr 16, 2018.

1.3 Roedd yr Adolygiad yn canolbwyntio ar ddiffinio'r materion sy'n wynebu iechyd a gofal cymdeithasol, adnabod yr angen am newid, gweledigaeth am y dyfodol, a chyngor ar sut i gyflawni unrhyw newid, gan adeiladu ar agweddau cadarnhaol y system bresennol.

1.4 Mae'r Adolygiad yn gwneud argymhelliad am fodelau gofal newydd, sy'n canolbwyntio'r gwasanaethau o amgylch yr unigolyn a'u teulu, mor agos â'u cartref â phosibl. Mae'n pwysleisio'r angen i wasanaethau fod yn ataliol, yn hawdd eu defnyddio ac yn uchel eu hansawdd.

## 2 Pam bod angen Penderfyniad

2.1 Mae'n briodol i ystyried ein hymagwedd mewn perthynas â'r adroddiad terfynol o'r Adolygiad Seneddol, er mwyn gallu bod yn hyderus o'n cyfeiriad ar gyfer y dyfodol mewn perthynas â gwasanaethau iechyd a gofal Gwynedd i blant a phobl o bob oed.

## 3. Beth yw'r Penderfyniad a geisir

3.1 Gofynnir i'r aelodau ystyried yr adroddiad yma a'r atodiad a nodi plethiant y cynlluniau sydd eisoes yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor gyda'r cyfeiriad a nodi'r yn yr adolygiad.

## 4. Beth yw'r cefndir ac ystyriaethau perthnasol

4.1 Fel aelodau perthnasol i'r maes iechyd a gofal, rydym yn croesawu cyhoeddi'r Adolygiad yma.

4.2 Mae'n cynnig cyfle i ystyried dyfodol hirdymor iechyd a gofal cymdeithasol yng Ngwynedd, a sut y gallwn adeiladu ar ein gwaith o greu system iechyd a gofal cymdeithasol cynaliadwy, sy'n ddi-dor ac yn canolbwyntio ar anghenion trigolion Gwynedd.

4.3 Mae'r Adolygiad yn dadlau bod angen newid y system iechyd a gofal presennol yng Nghymru yn sylfaenol er mwyn sicrhau ei bod yn grymuso unigolion i wneud penderfyniadau ac yn teilwra gofal i anghenion a dewisiadau unigolion. Hefyd, mae'n nodi bod angen i'r system fod yn fwy rhagweithiol ac ataliol, gan sicrhau bod gwasanaethau ar gael mor agos â phosibl i gartrefi pobl, a'u bod yn ddi-dor ac o'r safon uchaf.

4.4 Fe ddylai'r Adolygiad weithredu fel sylfaen tystiolaeth sylweddol i lywio Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'r dyfodol. Cyflwynir 4 nod - 'Y Nod Pedwarplyg'- fydd yn arwain at:

I. Wella Iechyd a llesiant y boblogaeth trwy ganolbwyntio ar atal.
II. Gwella profiad gofal unigolion a theuluoedd, yn ogystal ag ansawdd y gofal.
III. Cyfoethogi llesiant, gallu ac ymgysylltiad y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol, a
IV. Cynyddu'r gwerth a gyflawnir gyda chyllid iechyd a gofal, trwy welliant, arloesi, defnyddio arfer gorau, a chael gwared ar wastraff.

4.5 Mae'r Adolygiad yn adnabod bod awdurdodau lleol wedi bod yn symud at system integredig o ofal ers sawl blwyddyn a chyflwynwyd tystiolaeth gennym, fel Cyngor i'r Adolygiad am y gwaith o weithio'n integredig sydd wedi digwydd yn Alltwen, ac erbyn hyn ar draws y Sir.

4.6 Mae arian yr ICF wedi helpu gyda'r gwaith yma i'n galluogi i weithio gyda partneriaid ehangach fel y trydydd sector. Ond fel mae'r Adolygiad yn ei amlygu, yr her sydd yn bodoli yw, sut y gallwn fod yn fwy arloesol ac uchelgeisiol, a chynyddu'r momentwm i greu system gofal ac iechyd di-dor.

4.7 Mae'r Adolygiad yn cynnig 10 o argymhellion lefel uchel, gyda chamau gweithredu manwl yn cefnogi pob argymhelliad gyda ffocws clir ar ddatblygu 'Un system ddi-dor i Gymru'. Cynigir rhaglen drawsnewid genedlaethol er mwyn goruchwylio'r broses o gyflawni.

4.8 Yn y gwaith atodol i'r Adolygiad mae cyfeiriad at ein gwaith yng Ngwynedd fel arfer da ac mae cynnig o fewn yr Adroddiad i ystyried defnyddio'r arfer dda, sydd yn cynnwys ein gwaith ni, fel adnodd i ledaenu'r gwaith ar draws Cymru.

4.9 Ceir amlinelliad o'r argymhellion isod, ynghyd a throsolwg ar sut yr ydym yn gweithredu ar hyn o bryd yn eu herbyn, ac sut mae ein cynlluniau i'r dyfodol yn cyd-fynd a egwyddorion yr adroddiad.

**Argymhelliad 1: Un system ddi-dor i Gymru**

Dylid trefnu gofal o amgylch yr unigolyn a theulu'r unigolyn, mor agos â phosibl at y cartref, ac y dylai fod yn ataliol, yn hygyrch ac o ansawdd uchel. Dylai gael ei alluogi'n rhannol gan dechnoleg ddigidol a dylai ddarparu'r hyn sy'n bwysig i ddefnyddwyr a'r cyhoedd. Dylai gofal a chymorth fod yn ddi-dor, heb unrhyw rwystrau artiffisial rhwng iechyd corfforol ac iechyd meddwl, gofal sylfaenol a gofal eilaidd, ac iechyd a gofal cymdeithasol. Mae gan y sectorau cyhoeddus, gwirfoddol ac annibynnol ran i'w chwarae wrth ddiwallu anghenion y boblogaeth, nawr ac yn y dyfodol.

Mae'r timau adnoddau cymunedol integredig o fewn y maes pobl hyn, yn sicr yn enghraifft o system iechyd a gofal di-dor sydd yn canolbwyntio ar hyn sydd yn bwysig i'r unigolyn, ac yn ceisio sicrhau gofal yn agos i gartref. Mae'r trydydd sector yn chwarae rôl allweddol yn y timau yma.

Tra nad yw iechyd meddwl ac anableddau dysgu yn cael eu trin fel materion unigol o fewn yr Adolygiad, mae'r adroddiad yn datgan y dylai gofal a chymorth fod "yn ddi-dor heb rwystrau artiffisial rhwng iechyd corfforol a meddwl, gofal cynradd ac eilaidd, neu iechyd a gofal cymdeithasol''. A dyma yw'r bwriad o fewn ein gwasanaethau anableddau ac iechyd meddwl yng Ngwynedd, a bydd yr aelodau yn ymwybodol o'r newid sydd arwaith.

**Argymhelliad 2: Y Nod Pedwarplyg i bawb**

Mae'r adroddiad yn ategu'r weledigaeth ar gyfer "un system" gyda phedwar nod – y Nod Pedwarplyg. Hynny yw, y dylai staff iechyd a gofal, gwirfoddolwyr a dinasyddion gydweithio i gyflawni canlyniadau clir, gwell iechyd a llesiant, gweithlu sy'n derbyn gofal, a gwell gwerth am arian.

Hawdd yw gweld tebygrwydd rhwng egwyddorion Ffordd Gwynedd a'r nod pedwarplyg gyda'r ffocws ar yr unigolyn, dileu rhwystrau a chael gwared â gwastraff. Gallwn fod yn hyderus i symud ymlaen gyda ein rhaglen 'ail ddylunio gofal' sydd wedi cychwyn ac y 'strategaeth cefnogi teuluoedd' sydd ar fin cychwyn drwy ddefnyddio'r adroddiad hwn fel cadarnhad ein bod ar y trywydd cywir.

**Argymhelliad 3: Modelau gofal di-dor newydd a dewr – egwyddorion cenedlaethol, darparu'n lleol**

Mae'r adroddiad yn disgrifio symud at ffordd newydd, ddi-dor o weithio mewn ardaloedd lleol - wedi'i harwain gan y weledigaeth a'r Nod Pedwarplyg ac egwyddorion arfer da cenedlaethol. Mae cyfeiriad yn yr Adolygiad bod angen edrych ar y trefniadau rheoleiddio a rheoli perfformiad, gan nad ydynt yn eu tyb hwy yn cymell gwaith ataliol, ac mae angen ceisio gwneud hyn. Mae cyfeiriad yn ogystal am yr angen i fynd i'r afael a'r ffactorau/digwyddiadau anffafriol sydd yn digwydd i blant sydd yn creu problemau gydol oes.

Mae'n werth nodi nad yw'r drefn uchod yn adlewyrchiad o'r drefn presennol. Fel enghraifft mae'r gofyniad ar gyfer sefydlu cyllidebau cyfun ar sail rhanbarthol, ac mae hyn yn her i ni. Sut gall hyn fod yn effeithiol gyda gwasanaethau sydd wedi'u hintegreiddio ar ôl troed lleol? Mae yna berygl byddai'r ymagwedd yma yn mynd yn groes i 'egwyddorion cenedlaethol – darparu'n lleol' a bydd newid ymagwedd Llywodraeth Cymru yn sylfaen bwysig i ni os yr ydym am lwyddo.

Mae sawl ffrwd gwaith ar y gweill yng Ngwynedd. Un ohonynt yw'r Prosiect Gofal Cartref sydd yn fodel gofal newydd gyda'r pwyslais bod gwasanaethau yn cael

eu cadw mor lleol â phosib i bobl a bod unigolion yn ganolig i'r gwasanaethau hynny.

Yn ogystal, mae'r Cyngor eisoes wedi adnabod yr angen i roi mwy o ffocws ar gefnogi teuluoedd gyda phwyslais cryf ar waith ataliol a gweithio'n integredig ar draws partneriaid allweddol. Y bwriad yw gwneud hyn mewn ffordd ddi-dor sydd yn cryfhau rôl a chyfraniad partneriaid i wella deilliannau plant a phobl o bob oed.

Bydd aelodau yn ymwybodol o'r gwaith rhanbarthol sydd wedi cymryd lle y llynedd o ran ceisio deall anghenion poblogaeth y rhanbarth, ac yn fwy diweddar wedyn y cynllun sydd wedi ei ddatblygu mewn ymateb i hynny. Er y gwaith da sydd wedi digwydd yn rhanbarthol mae'n gwbl allweddol ein bod yn glir o anghenion poblogaeth Gwynedd yn benodol, a hynny er mwyn sicrhau ein bod yn darparu'r gefnogaeth cywir yn lleol sy'n ymateb i anghenion ein trigolion.

**Argymhelliad 4: Rhoi'r rheolaeth yn nwylo'r bobl**

Mae galw i gryfhau'r rhan y mae unigolion a'r gymuned yn ei chwarae, trwy ddarparu llais a rheolaeth mewn iechyd a gofal a sicrhau bod pobl o bob oed a phob cymuned yn cael eu cynnwys yn gyfartal.

Mae sicrhau cymunedau gwydn yn rhan hanfodol o hyn. Mae ein rhaglen 'Cymunedau Gwydn', sydd o fewn Cynllun y Cyngor yn canolbwyntio ar greu buddsoddiad mewn gwasanaethau ataliol newydd neu gyfredol o fewn canolfannau sylfaenol a chymunedol sydd yn berthnasol i blant a phobl o bob oed. Bydd y rhaglen yn cynnig cyfleodd newydd mewn gwasanaethau ataliol ochr wrth ochr 'busnes fel arfer' yn y system bresennol. Mae'r Cyngor wedi cynnwys 'gwydnwch cymunedol' fel un o brif flaenoriaethau gwella ar gyfer y pum mlynedd nesaf, a bydd yn rhan bwysig o geisio sicrhau bod unigolion yn gallu aros o fewn eu cymunedau ac i barhau i fyw yn annibynnol o fewn eu cymunedau. Rhan allweddol i hyn fel mae'r adroddiad yn nodi, yw rôl y trydedd sector a chyfraniad enfawr gofalwyr di-dâl. Bydd angen sicrhau bod ein trefniadau cydweithio yn effeithiol o ran y materion hyn.

**Argymhelliad 5: Lle gwych i weithio ynddo**

Dylai staff fod wedi'u hyfforddi a'u cefnogi'n dda, a dylid ymgysylltu â nhw, er mwyn cyflawni gwasanaeth o ansawdd uchel sy'n cydymffurfio â'r weledigaeth a'r Nod Pedwarplyg, ac er mwyn gwella'r gwasanaeth hwnnw'n barhaus.

Mae sgiliau a gallu'r gweithlu yn ffactor holl bwysig o safbwynt ansawdd y gofal a'r deiliannau. Bydd creu gwasanaethau iechyd a gofal cynaliadwy yn y dyfodol yn dibynnu ar ein gallu i aildrefnu'r gweithlu i allu cynnig modelau gofal newydd. Serch hyn, mae prinder staff ar draws y sector iechyd a gofal. Mae ffrwd gwaith o fewn Cynllun y Cyngor i geisio ymateb i'r her hyn ond gwelir yr angen am ymateb Cenedlaethol i nifer o'r materion.

Mae cyfeiriad yn ogystal at yr angen i gefnogi gofalwyr di dal. Mae hwn yn un o'r prif feysydd o ran blaenoriaeth gwella ni fel Cyngor am y cyfnod strategol nesaf. Mae angen i ni ofalu bod gofalwyr di-dâl yn cael eu cydnabod, eu gwerthfawrogi a'u cynnwys wrth gynllunio'r gweithlu. Bydd angen, yn amlwg, i ni weithio'n agos iawn efo'r Bwrdd Iechyd a phartneriaid allweddol eraill fel ein darparwyr gofal a'r Brifysgol os am lwyddo gyda'r mater hyn.

**Argymhelliad 6: System iechyd a gofal sy'n dysgu trwy'r amser**

Cryfhau'r diwylliant a'r ymddygiad o gofleidio dysgu ar y cyd fel ei fod yn gorbwyso beirniadaeth, ofn ac osgoi risg. Bydd hyn yn gofyn i arweinwyr greu system lle gall pobl ddysgu drwy'r amser trwy system o wella parhaus. Elfen bwysig yw cynhwysiant, gan gynnwys y gweithlu, y dinesydd a'r sectorau gwirfoddol ac annibynnol.

Yn hynny o beth mae'n ddiwylliant o weithio gyda egwyddorion Ffordd Gwynedd 'Ffordd Gwynedd' yn ceisio gwneud hyn yn arfer barhaus. Mae cefnogi staff i wneud penderfyniadau gyda hyder tra'n ystyried risg yn mynd i fod yn her barhaus.

**Argymhelliad 7: Defnyddio arloesedd, a chyflymu datblygiadau mewn technoleg a seilwaith**

Yr angen i Gymru fanteisio i'r eithaf ar dechnoleg ac arloesi i fynd ar drywydd y Nod Pedwarplyg.

Mae cyfeiriad yma at WCCIS, ond er yn cael ei ganmol fel bwriad a gweithred, mae'r Adolygiad yn nodi bod sialensiau yn bodoli o ran integreiddio, llywodraethu a materion diwylliannol o fod yn defnyddio systemau TG newydd. Yma yng Ngwynedd mae WCCIS eisoes yn fyw, ond nid yw'r Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr eto wedi dod yn fyw ar y system. Mae cyfle yma hefyd i ni edrych ar sut gall y gwaith 'Cynllun Twf' gefnogi'r maes iechyd a gofal o ran defnydd o dechnoleg ac mae trafodaethau ar fin cychwyn i geisio ymgorffori'r angen yma o fewn y strategaeth.

**Argymhelliad 8: Cysoni dyluniad y system i gyflawni canlyniadau**

Mae'r argymhelliad yma yn canolbwyntio i raddau helaeth ar y trefniadau o fewn y GIG o ran dyluniad y system i gyflawni canlyniadau. Mae cyfeirio yma at yr angen i gael targedau rheoli perfformiad a mesurau mwy addas. Mae hyn unwaith eto yn cyd fynd ag egwyddorion 'Ffordd Gwynedd', a byddwn yn croesawu ceisio rhannu ein gwaith gyda'r Llywodraeth o ran hyn.

**Argymhelliad 9: Y gallu i drawsnewid, arweinyddiaeth ddeinamig, cydweithredu digynsail**

Angen cryfhau'r capasiti a'r gallu cenedlaethol, rhanbarthol a lleol er mwyn annog y system iechyd a gofal i wneud cynnydd ar hyd llinellau'r Nod Pedwarplyg, a datblygu modelau gofal newydd.

Mae cyfeiriad yma i sicrhau bod y gwaith o gynllunio gwasanaethau, cydweithredu, penderfynu a darparu adnoddau yn cael ei wneud i ardal leol lle bo hynny'n bosib. Mae cyfeirio at yr angen i benderfyniadau gael eu gwneud yn gyflymach ac angen lleihau'r amharodrwydd i fentro a chymryd risg.

Mae'n profiad ni yn lleol yn dangos ei bod yn anodd newid trefniadau gweithio mewn system fawr a chymhleth a bod hefyd trefniadau eang a chymhleth y Bwrdd Iechyd a'r trefniadau rhanbarthol yn gallu gwneud y broses o gael penderfyniad yn araf ac yn drwsgl. Mae'r trefniadau a'r berthynas waith yn is-ranbarthol drwy Y Cyfarwyddwr Ardal yn gymorth mawr i ni yng Ngwynedd ac wedi caniatáu'r cynnydd sydd wedi ei wneud, ond bydd angen ceisio cryfhau'r trefniadau ac atebolrwydd yn fwy lleol os am gyflymu'r newid. Mae trafodaethau wedi cychwyn i roi hyn yn ei le.

**Argymhelliad 10: Atebolrwydd, cynnydd a chyflymder**

Bydd disgwyliad i gyhoeddi cynnydd yn erbyn y weledigaeth, y Nod Pedwarplyg a'r modelau newydd ymhen blwyddyn, tair blynedd a pum blynedd, a meincnodi cynnydd yn erbyn y tair gwlad arall yn y Deyrnas Unedig.

## 5. Materion i'w Nodi

5.1 Mae cyfeiriad o fewn yr Adolygiad i'r angen am sefydlu Tîm Rhaglen Drawsnewid Genedlaethol i weithredu'r argymhellion. Credwn fod risg yma y byddai tîm o'r fath yn ceisio gyrru newidiadau yn lleol, gan dorri ar draws trefniadau lleol. Bydd angen bod yn fyw i'r risg hyn a cheisio dylanwadu ar y ffordd y bydd y tîm hwn yn gweithio. Mae yn beryg yn ogystal y byddai hyn yn mynd yn groes i Argymhelliad 3 sef 'Egwyddorion Cenedlaethol, Darparu'n Lleol'.

5.2 Mae cyfeiriad hefyd, ynghlwm a'r argymhelliad i greu Tîm Cefnogi Cenedlaethol ynghyd a phroses annibynnol i werthuso beth sydd yn gweithio'n dda a pham. Mae cyfeiriad at y bwriad o ofyn i'r Llywodraeth i ofyn i bob Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol i ddatblygu a rhoi yn ei lle model lleol di-dor mewn o leiaf dau leoliad newydd o fewn y rhanbarth, gan ddefnyddio buddsoddiad ychwanegol drwy Gronfa Trawsffurfio a chefnogaeth y rhaglen Trawsffurfio. Mae cyfle i ni ystyried efallai ein hunain fel model o arfer da.

5.3 Un o flaenoriaethau allweddol y Rhaglen Drawsnewid fydd sicrhau bod gofal a chefnogaeth i blant a phobl ifanc di-dor ar gael yn lleol. Mae cyfeiriad at geisio blaenoriaethu lleihau tlodi ag anghydraddoldeb i blant. Bydd yr aelodau yn ymwybodol bod hwn yn cyd-fynd a'r cyfeiriad o ran y maes cefnogi teuluoedd.

5.4 Mae cyfeiriad at bwysigrwydd yr iaith Gymraeg yn y maes gofal ac iechyd a'r angen i sicrhau bod hwn yn cael ei ystyried wrth gynllunio'r gweithlu. Serch hyn, mae cyfeiriad at ganolbwyntio ar y proffesiynau sydd yn defnyddio profion wrth eu gwaith e.e. therapyddion iaith; a gall hyn olygu bod proffesiynau mwy cyffredinol fel nyrsys cyffredin a gweithwyr cymdeithasol ddim yn derbyn yr un flaenoriaeth. Mae'n bwysig i ni barhau i yrru ein agenda 'Mwy na Geiriau' ar draws yr holl weithlu.

## 6. Unrhyw Ymgynghoriadau a Gynhaliwyd Cyn Argymell y Penderfyniad.

### 6.1. Barn y Swyddogion Statudol:

**i. Y Swyddog Monitro:**
**ii. Y Pennaeth Cyllid:**

Mae'r adroddiad trosolwg yma'n adnabod materion sy'n wynebu iechyd a gofal cymdeithasol, yr angen am newid, gweledigaeth am y dyfodol, ayb. Mae'r Adolygiad Seneddol yn cynnig 10 argymhelliad, ond deallaf fod nifer o'r rheiny unai yn cael ei gweithredu'n barod gan y Cyngor yma, neu fod y weledigaeth mewn lle. Felly, disgwylir i'r gwasanaethau perthnasol weithredu fel bo angen o fewn adnoddau cyfredol yr Adran.

### 6.2. Barn yr Aelod Lleol:

6.2.1 Ddim yn fater lleol.

**6.3. Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:**

6.3.1 Dim i'w nodi.

---

**Atodiadau:**

**Atodiad 1**

Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru.
http://gov.wales/docs/dhss/publications/180116reviewcy.pdf